# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.D. Perkes (Cadeirydd); Cynghorydd J. Aviet (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, C. Iannucci, I.A.N. Perry a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr A. Asbrey, L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), H.C. Hamilton ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

560 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

561 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd E. Penn.

562 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

563 CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2023-24 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o Gabinet 17 Tachwedd, 2022 fel yr oedd yn yr agenda, gan y Cyfarwyddwr Lleoedd er mwyn ymgynghori â Chraffu ac i gynnig eu sylwadau neu argymhellion ar y Cynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) drafft.  Y pwyntiau allweddol a godwyd oedd:

- Roedd y CCB yn gysylltiedig â Chynllun Corfforaethol y Cyngor a'i bedwar Amcan Lles (yn ogystal â'r Cynlluniau Gwasanaeth Blynyddol, a thrwy hynny ran o'r 'llinyn arian' oed yn dod â'r cynlluniau allweddol hyn at ei gilydd).
- Roedd gan y CCB chwe thema: Project Sero, Seilwaith, Trawsnewid, Gofal a Chymorth, Caledi a Chapasiti Cymunedol, yn ogystal â thri maes ffocws

allweddol, sef yr Argyfwng Costau Byw, Prosiect Sero a Chadernid Sefydliadol. Un her allweddol i'r CCB oedd unrhyw gyfyngiadau cyllidebol yn deillio o'r setliad ariannol sydd ar fin digwydd gan Lywodraeth Cymru (LlC).

- Roedd y CCB hefyd yn manylu ar y camau gweithredu i gyflawni'r Amcanion Corfforaethol a Lles, yn amrywio o gydlynu ymateb sy'n cefnogi trigolion, busnesau, y trydydd sector a staff y Cyngor gydag effaith yr argyfwng costau byw.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, cafwyd y cwestiynau a'r sylwadau neu ymholiadau canlynol gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Cynghorydd C. Champion fod y targed o 138 o dai fforddiadwy yn rhy isel, ac felly dylai'r Cyngor fod yn fwy uchelgeisiol.  Holodd hefyd fod yn ofynnol i dros 100 o dai ddarparu swm penodol o dir ar gyfer rhai tai Cyngor.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod angen y Cynllun Datblygu Lleol presennol, mewn rhai lleoliadau rhaid i wahaniaeth rhwng 30% a 40% o dai fod yn fforddiadwy. Ystyr eang tai fforddiadwy ledled Cymru mewn gwirionedd oedd tai rhent cymdeithasol.  Roedd yna rai datblygiadau hefyd oedd yn edrych i ddarparu tai fforddiadwy ar werth llai oedd yn gorfod cael eu darparu neu eu rheoli gan ddarparwr tai cymdeithasol. Byddai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ystyried opsiynau i'r Cyngor weithio gyda neu gefnogi darparwyr tai cymdeithasol yn enwedig o ystyried y pwysau economaidd presennol sy'n effeithio ar y sector tai.

Cytunodd y Cynghorydd M. Hooper y dylai'r CCB fod yn fwy uchelgeisiol, yn enwedig pan ddaeth i dwf economaidd a mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a bod angen cyfeirio mwy at y cysylltiadau â'r 2 ardal h.y., gallai newid yn yr hinsawdd arwain at fath gwahanol o dwf economaidd.  Roedd angen mwy o gyfeiriad a chwmpas hefyd at ôl troed ecolegol y Fro (nid y Cyngor yn unig).  Yn ogystal, nid oedd cyfeiriad at y mathau o fusnes yr oedd y Cyngor am eu hannog, er enghraifft, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol economaidd, ac roedd y ddau ohonynt yn fwy tebygol o lwyddo yn yr hinsawdd bresennol.  Dylai fod mwy o gyfeirio ac ystyried tai goddefol a fyddai'n fwy tebygol o gyrraedd safonau amgylcheddol posibl yn y dyfodol.  Wrth ateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd ei fod yn hanfodol bod y Cyngor yn ceisio cefnogi twf, ond roedd yn bwysig bod y math o dwf yn gynaliadwy. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr at mai un o'r pethau olaf yr oedd y Cyngor eisiau ei wneud oedd datblygu tai y byddai angen eu gosod gyda thechnoleg newydd ymhen 3 neu 4 blynedd.

Gofynnodd y Cynghorydd A. Ernest am weithdy ar y CCB i Aelodau gan ddweud mai prin oedd y cyfeiriadau at gynlluniau ar gyfer Penarth neu Ddinas Powys.

Dywedodd y Cynghorydd I. Perry y dylai'r Cyngor edrych ar yr ystod a'r mathau o gyfleusterau / amwynderau oedd ar gael i gymunedau lleol, gan ei fod yn teimlo bod llawer o bobl wedi symud i ardaloedd gwledig ond nad oeddent yn ymddangos eu bod yn aros yn hir iawn oherwydd diffyg cyfleusterau cymunedol, h.y. mannau gwyrdd, siopau ac ati.

Roedd y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried cyfeirnod ac adroddiad y Cabinet, wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft, sydd ynghlwm yn Atodiad A i adroddiad y Cabinet, yn cael ei nodi.

(2) Y DYLID nodi’r dull ymgynghori a'r amserlen yn ogystal â'r dull a gymerwyd hyd yma i ddrafftio'r Cynllun Cyflawni Blynyddol a'r berthynas â Chynlluniau Gwasanaeth Blynyddol, fel y nodir yn yr adroddiad

(3) BOD cais yn cael ei wneud i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol am gynnal gweithdy gydag Aelodau'r Pwyllgor Craffu i ganiatáu trafodaeth bellach a dadl ar gynnwys Cynllun Cyflawni Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg 2023-24 sy'n ymwneud â'r cylch gorchwyl o Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r adroddiad Cabinet atodedig i ystyried y Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft 2023-24.

(3) Er mwyn caniatáu mwy o fewnbwn gan Aelodau i Gynllun Cyflawni Blynyddol Drafft Cyngor Bro Morgannwg 2023-24.

564 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL PERFFORMIAD CHWARTER 2 (CAT) –

Cyflwynodd yr adroddiad perfformiad gynnydd y Cyngor yn Chwarter 2 (1 Ebrill i 30 Medi, 2022) tuag at gyflawni ei ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol (20222/23) fel sy'n cyd-fynd â’i Amcanion Lles yn y Cynllun Corfforaethol.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i bob un o 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol yn Ch2 i adlewyrchu'r cynnydd da a wnaed hyd yma o ran cyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2022/23.

Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 93% (353/380) o weithgareddau a gynlluniwyd a amlinellir yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor sy'n adlewyrchu'r cynnydd cadarnhaol a wnaed yn ystod y chwarter, priodolwyd statws Melyn i 2% (7) o weithgareddau a gynlluniwyd a phriodwyd statws Coch i 5% (20) o weithgareddau a gynlluniwyd.

O’r 128 o fesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles Cynllun Corfforaethol y Cyngor, adroddwyd data ar gyfer 27 o fesurau lle roedd statws perfformiad yn berthnasol. Priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 59% (16) ohonynt, statws Melyn i 11% (3) ohonynt, a statws Coch i 30% (8) ohonynt. Nid oedd statws perfformiad yn berthnasol ar gyfer 101 o fesurau gyda 22 o'r rhain yn ymwneud â'r mesurau oedd yn sefydlu perfformiad llinell sylfaen ar gyfer 2022/23. Cafodd 67 pellach o'r mesurau hynny eu monitro'n flynyddol ac i 12 o'r mesurau ni roddwyd unrhyw ddiweddariad.

Mewn perthynas â'r gweithgareddau arfaethedig o fewn cylch gwaith Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 95% (103

allan o 108), 2 (2%) yn statws Melyn a 3% (3) yn statws Coch. O'r 6 mesur a adroddwyd, priodolwyd statws perfformiad Gwyrdd i 67% (4), a statws Melyn i 33% (2).

Y chwarter hwn roedd yr eithriadau perfformiad wedi'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt gan Aelodau Etholedig yn dilyn gweithdy ym mis Gorffennaf 2022 ar fonitro perfformiad y Cynllun Cyflawni Blynyddol. Er mwyn hwyluso cyfeirio, roedd eithriadau perfformiad yn cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu bellach yn tynnu sylw at statws presennol y camau perfformio Coch a nodwyd yn y chwarter blaenorol i ddangos cyfeiriad teithio, hynny oedd a oedd camau adfer arfaethedig wedi'u gwneud i symud ymlaen â'r camau hynny.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch2 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Ar ôl ei ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Cyfeiriodd y Cynghorydd M. Hooper at yr amserlenni tynn sy'n gysylltiedig â gwario arian o'r Gronfa Codi'r Gwastad. Dywedodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod y cyfnod llai o amser oedd yn cael ei ganiatáu i wario'r arian yn golygu bod unrhyw brosiect yn fwy anodd i'w gyflawni, yn enwedig un â chyllideb o £20 miliwn. Roedd rhywfaint o sylwebaeth wedi bod ynghylch y posibilrwydd o ymestyn y dyddiad cau heibio 2024/25, ond doedd dim byd wedi'i gadarnhau eto.

Cwestiynodd y Cadeirydd, y Cynghorydd S. Perkes y rhesymau dros ddirywiad yn y cyfraddau ailgylchu ar gyfer gwastraff gwyrdd a chynnydd mewn gwastraff bagiau du. Dywedodd Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth, mewn perthynas â gwastraff bagiau du, bod cynnydd wedi bod yn nefnydd y bagiau porffor, sef bagiau ychwanegol y gallai pobl eu cael os oedd ganddynt anghenion ychwanegol. Yn gyffredinol, roedd y gyfradd gydymffurfio â'r rheol dau fag du yn gadarnhaol, ond roedd ambell bocedi gyda phroblemau, er enghraifft, yn rhoi bagiau du o sawl tŷ yn dwmpath mawr. Roedd hyn yn rhywbeth roedd y Wardeiniaid Gwastraff yn ymchwilio iddo. Roedd llai o bryder am Wastraff Gwyrdd, oherwydd y gallai'r gostyngiad fod yn fwy tebygol gan nad yw pobl yn torri eu gwair nac yn tocio'u gwrychoedd mor aml.

Wedi ystyried yr adroddiad, yr oedd

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r canlyniadau perfformiad a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2022/23, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

565 BARGEN DDINESIG PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD – DIRPRWY A ENWEBWYD GAN Y CYDBWYLLGOR CRAFFU (PW) –

Roedd yr adroddiad yn gofyn am enwebiad y Pwyllgor am ddirprwy gynrychiolydd penodol ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu (CTCh).

Ar ôl derbyn tri enwebiad am y swydd, gyda phob un ohonynt yn cael eu heilio, gofynnwyd i aelodau'r Pwyllgor ddatgan eu dewis. Cafodd y Cynghorydd J. Aviet y nifer uchaf o bleidleisiau, ac felly byddai eu henwebiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo.

ARGYMHELLWYD – BOD y Pwyllgor Sgriwtini yn argymell i'r Cyngor Llawn y dylid penodi'r Cynghorydd J. Aviet fel y dirprwy enwebedig i gynrychioli'r Cyngor ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Rheswm dros yr argymhelliad

Penodi dirprwy gynrychiolydd i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd – Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.